DAEAR NEWYDD DUW—PWY FYDD YN GYMWYS I FYW ARNI?

Nodyn i'r siaradwr:
Mewn ffordd bositif ond realistig, helpwch y gynulleidfa i weld yr angen am fyd newydd Duw, a pham nad oes gan ddynion y gallu i wneud daear newydd eu hunain. Eglurwch fod Teyrnas Dduw yn rheoli nawr. Pwysleisiwch y bendithion a beth sydd ei angen er mwyn bod yn gymwys i fyw ym myd newydd Duw. Plîs defnyddiwch y term "byd newydd," yn hytrach na'r "drefn newydd"

MAE GWIR ANGEN AM FYD NEWYDD! (5 mun.)

Trwy'r byd cyfan, mae pobl yn ofnus a phryderus (*w06*-E 9/15 4-6; *w03*-E 6/1 13; *g05*-E 8/8 4-7; *g03*-E 7/8 3-4)

Er gwaethaf yr holl boeni a thrafodaeth, mae problemau byd-eang yn aruthrol ac yn parhau

A allwn ni ddisgwyl i ddynion amherffaith greu byd newydd?

Mae llywodraethau dynol wedi rheoli am filoedd o flynyddoedd

Mae rhai newidiadau yn digwydd, ond nid oes gan reolwyr y byd y gallu i ddatrys y problemau mawr, ac nid ydyn nhw'n gallu darparu'r pethau sydd eu gwir angen ar bobl

Mae pob math o lywodraeth ddynol wedi methu rhoi'r hyn y mae pobl yn ei ddymuno (Pre 8:9; *g90*-E 12/8 23)

JEHOFA YN UNIG A ALL WNEUD BYD GWELL (10 mun.)

Mae Jehofa wedi addo byd newydd (2Pe 3:13)

Bydd y Deyrnas yn cyflawni addewid Duw (Mth 6:10; Dat 11:15)

Mae Jehofa wedi rhoi rhesymau a gwybodaeth inni er mwyn ein helpu ni i fagu hyder yn ei Deyrnas (*g06*-E 11 8; *bh* 77-79)

Mae wedi datgelu ei rinweddau rhagorol yn y modd y mae wedi delio â'r ddynolryw

Mae'r egwyddorion y mae ei lywodraeth wedi ei seilio arnyn nhw yn glir i'w gweld

Nid oes amheuaeth am bwy yw'r Meseia, y Brenin sy'n rheoli (*w06*-E 2/15 5-7)

Mae'n hanfodol inni ymddiried yn Jehofa a dilyn ei gyfarwyddyd (Dia 3:5, 6)

Bydd Iesu'n chwarae rhan allweddol wrth wneud y byd yn well (*g06*-E 12 5-9)

Roedd marwolaeth Iesu'n agor y ffordd i fynd i mewn i'r byd newydd, ffordd a oedd ar gau cynt, gan ei gwneud hi'n bosibl i ddileu pechod ac i gael bywyd tragwyddol (In 3:16)

Er 1914, mae Crist wedi bod yn rheoli fel Brenin nefol (Sal 110:1, 2; Da 7:13, 14)

Cyn bo hir bydd y Deyrnas yn dinistrio llywodraethau dynol (Da 2:44)

Yna, bydd Iesu'n rheoli mewn modd cyfiawn dros bobl sydd ar y ddaear (Sal 72:7, 8, 11; *g06*-E 12 4)

Bydd brodyr sydd wedi eu penodi gan yr ysbryd yn cael eu hyfforddi i arolygu (Esei 32:1, 2)

BOD YN GYMWYS I FYW AR DDAEAR NEWYDD DUW (12 mun.)

Jehofa yw'r un sy'n gosod y safonau ar gyfer mynediad i'r byd newydd (Sal 15:1-5; 24:3, 4; Esei 35:8)

Pobl heddychol yn unig fydd yn byw yno (Mich 4:3)

Mae glendid moesol a pharch tuag at y drefn briodasol yn hanfodol ar gyfer byw yn y byd newydd (Eff 5:3-5; Heb 13:4)

Bydd cymdeithas y byd newydd yn cael ei mwydo â chariad (In 13:34, 35)

Ni fydd lle yn y byd newydd i bobl annuwiol, hunanol, nac i'r rhai sy'n rhoi blaenoriaeth i bethau materol (Tit 2:11, 12)

Mae gan Dystion Jehofa enw da am eu hymddygiad

Mae tystiolaeth yn dangos bod y Tystion wedi datblygu'r bersonoliaeth newydd yn barod (Col 3:8-10; *w04*-E 10/1 13; *w02*-E 11/1 17; *w02*-E 10/1 11; *w02*-E 1/15 19-20)

Maen nhw eisoes yn ymddwyn yn dda, yn ôl safonau a fydd yn cartrefu yn y byd newydd

Mae'r gwaith pregethu byd-eang yn cael ei wneud nawr er mwyn helpu eraill i gael y gobaith o fywyd ym myd newydd Duw (Mth 24:14)

Mae'n rhaid i bobl wybod mai drwy un sianel yn unig y ceir gwybodaeth am y byd newydd (Mth 24:45-47)

Mae'n hanfodol ein bod ni'n byw yn ôl safonau'r Beibl, yn cydweithio â'r "gwas ffyddlon a chall," ac yn cymryd rhan yn y gwaith pregethu am y Deyrnas

Rhaid cymryd camau pendant gan fod y "dyddiau diwethaf" yn dod i ben (2Ti 3:1)

Mae Jehofa yn dangos hir amynedd

Nid nawr yw'r amser i fod yn ansicr neu i betruso (2Pe 3:9, 11, 14)

Gweithredwch nawr i oroesi'r "gorthrymder mawr" (Dat 7:9, 14)

BYDD ADDEWID DUW AM Y DDAEAR NEWYDD YN CAEL EI WIREDDU I'R RHAI SY'N GYMWYS (3 mun.)

Bydd y byd newydd yn adfer y ddaear i baradwys fyd-eang

Mewn hanes yn unig bydd rhyfeloedd (Sal 46:9)

Ni fydd newyn yn bodoli mwyach (Esei 25:6)

Dim ond pobl gyfiawn a di-fai fydd yn byw ar y ddaear (Dia 2:21, 22)

Bydd y byd newydd perffaith yn para am byth (Sal 37:11, 29)

Gweithredwch nawr, fel eich bod chi'n cael eich cynnwys yn y dorf fawr o oroeswyr a fydd yn byw yn y byd newydd o dan ofal gwarchodol Jehofa

(Does dim rhaid darllen pob testun)

© 2015 Watch Tower Bible and Tract Society of Pennsylvania